ConstructionSkills Construction Ambassadors Newsletter July 2010

ConstructionSkills' Construction Ambassadors have been extremely busy in the past months supporting various projects and initiatives. This newsletter is designed to recognise and showcase some of the work that Construction Ambassadors, like you, have been doing across Wales in the past 6 months, and how they have promoted Construction & the Built Environment to people of all ages.

South West Wales – Support from Ambassadors at Costain

Articles submitted by Costain

Dragon's Den Project – Sir Thomas Picton High School, Haverfordwest

Following an initial approach by Sir Thomas Picton High School in Haverfordwest to the Costain A40 team in Pembrokeshire, an exciting and unusual school project is growing in momentum and attracting a great deal of media interest. Sir Thomas Picton is a large secondary school in the County Town of Haverfordwest and prides itself in preparing its young people for the adult world. A big concern for this area is the number of young people who are forced to move away to gain employment or to go to University and it's always difficult for them to return. This is a real problem for the county's economic prosperity and the school wants to play its part to the full. A recent Estyn inspection has deemed the schools enterprise efforts to be outstanding and Deputy Head Tim Williams thinks the school staff have come up with a cracker of a new initiative for the Year 10 students. This is in addition to already working with Pembrokeshire lottery who provide £2000 every year to lend on to our sixth formers "Dragon's Den style".

Llysgenhadon Adeiladu SgiliauAdeiladu Cylchlythyr Gorffennaf 2010

Mae Llysgenhadon Adeiladu SgiliauAdeiladu wedi bod yn brysur iawn dros y misoedd diwethaf yn cefnogi amrywiaeth o brojectau a mentrau. Dylunnir y cylchlythyr hwn i gydnabod ac arddangos rhai o'r gwaith y mae Llysgenhadon Adeiladu, fel chi, wedi'i wneud ar draws Cymru dros y 6 mis diwethaf, a sut maen nhw wedi hyrwyddo Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig i bobl o bob oedran.

De-orllewin Cymru – Cefnogaeth gan Lysgenhadon o Costain

Cyflwynwyd erthyglau gan Costain

Project Dragon's Den – Ysgol Uwchradd Syr Thomas Picton, Hwlffordd

Yn dilyn cyswllt cychwynnol a symbylwyd gan Ysgol Uwchradd Syr Thomas Picton yn Hwlffordd, gyda thîm A40 Costain yn Sir Benfro, mae project ysgol cyffrous ac anarferol yn datblygu ac mae'n denu lot mawr o ddiddordeb gan y cyfryngau. Lleolir Syr Thomas Picton, Ysgol Uwchradd fawr sydd â llwyddiant blaenorol o baratoi ei phobl ifanc ar gyfer byd oedolion, yn Nhref Sirol Hwlffordd. Mae'r nifer o bobl sy'n gorfod symud i ffwrdd i ennill cyflogaeth neu i fynd i'r brifysgol yn achosi pryder mawr i'r ardal hon ac mae bob amser yn anodd i'r bobl hon ddychwelyd. Mae hon yn broblem i ffyniant economaidd y sir ac mae'r ysgol eisiau chwarae ei rôl yn llawn. Disgrifiodd arolwg diweddar a gynhaliwyd gan Estyn ymdrechion mentrus eithriadol yr ysgol ac mae'r Dirprwy Bennaeth, Tim Williams yn meddwl bod staff yr ysgol wedi dechrau menter newydd wych i fyfyrwyr blwyddyn 10. Mae hon yn ychwanegol i'r gwaith sy'n cael ei wneud yn barod gyda loteri Sir Benfro. Darperir £2000 bob blwyddyn i ni basio ymlaen i fyfyrwyr ein chweched dosbarth fel benthyciadau, yn arddull "Dragon's Den".

Tim comments, *"The scheme involves us working closely with the construction giant Costain".* The village of Robeston Wathen on the A40 is being by-passed and will soon benefit from the absence of trunk road traffic passing through. The school has set up a working party to imagine a rebranding of the village in collaboration with Costain, Pembrokeshire County Council, the local pub, various B&Bs and the local people. The initiative will involve site visits, sales pitches by the pupils, company presentations & displays and some very interesting ideas on what the village could be transformed into. Ideas have already included a book village like Hay On Wye, gambling village Las Vegas style, spa village, jazz village, designer outlet village etc. Phil Baker, Costain Public Liaison Officer & ConstructionSkills Construction Ambassador worked closely with the school team to coordinate and participate in the launch on 5th March; there were 2 days of site visits and a final Dragon's Den style presentation to the judging panel on 21st May. Phil commented that he is astounded by the interest that the project has generated, a HTV film crew covered the first lesson where the project was explained to one class of the year group and National and local radio stations are already covering the event.

The visits to site, local businesses and tourism presentations involved the coordination of over 150 pupils over 2 days split into 6 groups. Each group received an insight into the construction project and how the businesses see their future following the opening of the by-pass section.

In late May the judging panel consisted of Costain Project Manager Mr Mark Young, Welsh Assembly Government Project Engineer Mr Martyn Leech, County Council Officers, County & Community Councillors and local businesses. This project builds on the strong links with local schools, Careers Wales & ConstructionSkills.

Sylwodd Tim, *"Mae'r cynllun yn galw i ni gydweithio'n agos â'r cwmni adeiladu enfawr, Costain".* Mae ffordd osgoi yn cael ei hadeiladu o gwmpas pentref Robeston Wathen ar yr A40 felly bydd yr ardal yn manteisio ar gael llai o draffig o'r gefnffordd yn pasio trwyddo'n fuan. Mae'r ysgol wedi sefydlu gweithgor i ystyried ffyrdd o ail-frandio'r pentref ar y cyd gyda Costain, Cyngor Sir Benfro, y dafarn leol, amrywiaeth o B&Bs a'r bobl leol. Bydd y fenter yn cynnwys ymweliadau â safleoedd, broliannau marchnata gan y disgyblion, cyflwyniadau ac arddangosfeydd gan gwmnïau ac ychydig o syniadau diddorol iawn ar sut y gellid trawsffurfio'r pentref. Mae syniadau hyd yn hyn wedi cynnwys pentref llyfrau fel Y Gelli Gandrill, pentref gamblo yn arddull Las Vegas, pentref sba, pentref jas, pentref manwerthu, ayyb. Gweithiodd Phil Baker, Swyddog Cyswllt Cyhoeddus Costain a Llysgennad Adeiladu SgiliauAdeiladu'n agos gyda thîm yr ysgol i gydlynu a chymryd rhan yn y lansiad ar 5ed o Fawrth; roedd dau ddiwrnod o ymweliadau â'r safle a chyflwyniad terfynol yn arddull *Dragon's Den* o flaen y panel barnu ar 21ain o Fai. Sylwodd Phil ei fod wedi'i synnu gan y diddordeb y mae'r project wedi'i gynhyrchu, mynychodd criw ffilm HTV y wers gyntaf lle yr esboniwyd am y project i ddosbarth o'r grŵp blwyddyn ac mae sianeli radio cenedlaethol a lleol eisoes yn adrodd ar y digwyddiad.

Mae'r ymweliadau â'r safle, busnesau lleol a chyflwyniadau twristiaeth wedi galw am gyd-drefniant mawr gyda dros 150 o ddisgyblion yn cael eu rhannu yn 6 grŵp ar draws dau ddiwrnod. Derbyniodd pob grŵp fewnwelediad i'r project adeiladu a sut y mae'r busnesau'n gweld eu dyfodol yn datblygu yn dilyn agoriad y ffordd osgoi.

Yn hwyr ym mis Mai, roedd y panel barnu'n cynnwys Rheolwr Project Costain Mr Mark Young, Peiriannydd Project Llywodraeth Cynulliad Cymru Mr Martyn Leech, Swyddogion y Cyngor Sir, Cynghorwyr Sir a Chymuned a busnesau lleol. Mae'r project hwn yn adeiladu ar gysylltiadau rhwng ysgolion lleol, Gyrfa Cymru a SgiliauAdeiladu sydd eisoes yn gryf.

Greenhill School BTEC in Construction

The Costain team working on the A40 Penblewin to Slebech Park Improvement project for the Welsh Assembly Government recently had an opportunity to extend the skills of Costain team members Andy Watts and Phil Baker when they became teachers during 4 site visits by students from The Greenhill School, Tenby. Phil is a governor at the school and was aware that there were opportunities to assist in delivering the BTEC in Construction with Year 10 & 11, who required help with gathering evidence relating to site management, accident investigating, risk assessments and COSHH assessments.

The classes were split into 4 groups of 15, with each group spending their school day on site undertaking a programme of talks, site visits and exercises to assist with the production of the students' work folder. Phil delivered an overview of the project, organised the site team and led the pupils through the full induction process, highlighting the safety and environmental aspects of the scheme. Andy then explained the process involved when carrying our risk assessments, COSHH assessments and accident investigation.

The pupils were extremely engaged during their day on site and asked some extremely pertinent questions. During the final months of preparation to submit their evidence both Andy and Phil may be called on later in the term to help deliver further topics in the classroom. Head Teacher Mrs Jan Kingston commented, *"The experience has been invaluable for the boys. I know they have gained a huge benefit and great incentive to pursue construction as a career path."* John Piercy from the Design & Technology Department concurred saying, *"Pupils have made huge progress since their visit to Costain, where they learned about sustainability within construction and how Costain promotes and implements sustainability within their projects. I really appreciate the time, effort and resources that the team has put into supporting Greenhill School."*

Ysgol Greenhill BTEC mewn Adeiladu

Cafodd y tîm Costain sy'n gweithio ar broject gwella'r A40 o Benblewin i Barc Slebets ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru gyfle i ehangu sgiliau ddau aelod o'i dîm yn ddiweddar, pan ddaeth Andy Watts a Phil Baker yn athrawon yn ystod 4 ymweliad â'r safle gan fyfyrwyr o Ysgol Greenhill, yn Ninbych-y- Pysgod. Mae Phil yn llywodraethwr yn yr ysgol ac roedd yn ymwybodol am gyfleoedd a fodolodd i gynorthwyo â thraddodi'r BTEC mewn Adeiladu gyda blwyddyn 10 a 11. Roedd angen help arnynt i gasglu tystiolaeth gysylltiedig â rheoli safle, ymchwilio damweiniau, asesiadau risg ac asesiadau COSHH.

Rhannwyd y dosbarthiadau yn 4 grŵp o 15, gyda phob grŵp yn treulio ei ddiwrnod ysgol ar y safle yn ymgymryd â rhaglen o gyflwyniadau, ymweliadau â'r safle ac ymarferion i gynorthwyo â chynhyrchiad ffolderi gwaith y myfyrwyr. Traddododd Phil drosolwg o'r project, trefnodd dîm y safle ac arweiniodd y disgyblion trwy'r broses anwytho lawn, gan amlygu agweddau diogelwch ac amgylcheddol y cynllun. Esboniodd Andy y broses y mae'n rhaid ei dilyn wrth wneud asesiadau risg, asesiadau COSHH ac ymchwilio damweiniau.

Dangosodd y disgyblion ddiddordeb mawr yn ystod eu diwrnod ar y safle a gofynnon nhw nifer o gwestiynau perthnasol iawn. Yn ystod y misoedd terfynol o baratoi i gyflwyno'u tystiolaeth, y mae'n bosib y bydd Andy a Phil yn cael eu galw i mewn i helpu â thraddodi pynciau pellach yn y dosbarth. Sylwodd Pennaeth yr Ysgol, Mrs Jan Kingston, *"Mae'r profiad wedi bod yn amhrisiadwy i'r bechgyn. Rwy'n gwybod bod y cynllun wedi bod yn fuddiol iawn iddynt ac mae wedi darparu cymhelliant mawr iddynt eisiau dilyn gyrfa mewn adeiladu." Cytunodd* John Piercy o'r Adran Dylunio a Thechnoleg gan ddweud, *"Mae disgyblion wedi gwneud cynnydd mawr ers iddynt ymweld â Costain, lle dysgon nhw am gynaliadwyedd o fewn adeiladu a sut mae Costain yn hyrwyddo a gweithredu cynaliadwyedd o fewn eu projectau. Rwy'n wir werthfawrogi'r amser, ymdrech ac adnoddau y mae'r tîm wedi'u cyfrannu i gefnogi Ysgol Greenhill."*

Principal Learning in Construction & the Built Environment

During the construction of the A40 Penblewin to Slebech Park Improvement project in Pembrokeshire, Costain has taken its role within the community extremely seriously. As an employer, the company sees it as fundamental to be involved with the local residents, businesses and schools. This engagement has been developed during the time that the team have been on site; joint initiatives with ConstructionSkills & Careers Wales West have led to over 300 pupils from local high schools and colleges visiting the site.

In addition to this, Construction Ambassadors have been active in local primary schools with Grand Design competitions and interview experience days. Future projects include "Maths in the Workplace" and students undertaking work experience. The connectivity between employers and schools is a key element of the Welsh Baccalaureate qualification and Costain is eager to assist in a number of ways at the A40 and across its other sites.

Mid Wales - Brecon

Girls' Behaving Constructively in Brecon College

On 24 March, 26 girls from 4 schools in the Brecon area attended Coleg Powys, Brecon campus for the day to undertake some practical activities based around construction & the built environment. Year 8 girls, of around 12-13 years old, from Brecon High, Crickhowell High, Maesydderwen Comprehensive and Builth Wells Comprehensive attended the activity day which showed them some of the opportunities in the industry for them and allowed them to have a taster of some trades and professional careers.

In the morning, the girls got to have a go at some bricklaying and carpentry with the help of the tutors at Coleg Powys, Brecon. The girls were split into 2 groups and spent just over an hour in each trade.

Prif Ddysgu mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig

Wrth i broject gwella'r A40 o Benblewin i Barc Slebets gael ei adeiladu yn Sir Benfro, mae Costain wedi cymryd ei rôl o fewn y gymuned o ddifrif. Fel cyflogwr, mae'r cwmni yn ei weld yn sylfaenol eu bod nhw'n cysylltu â'r preswylwyr lleol, busnesau ac ysgolion. Mae'r ymwneud hwn wedi'i ddatblygu dros amser wrth i'r tîm fod ar y safle; mae mentrau ar y cyd â SgiliauAdeiladu a Gyrfa Cymru yn y Gorllewin wedi arwain at dros 300 o ddisgyblion o ysgolion uwchradd a cholegau lleol yn ymweld â'r safle.

Yn ogystal â hyn, mae Llysgenhadon Adeiladu wedi bod yn weithredol mewn ysgolion cynradd lleol yn cynnal cystadlaethau *Grand Designs* a diwrnodau ymarfer cyfweliadau. Bydd projectau yn y dyfodol yn cynnwys "Mathemateg yn y Gweithle" a myfyrwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith. Mae'r cysylltedd rhwng cyflogwyr ac ysgolion yn elfen allweddol o gymhwyster Bagloriaeth Cymru ac mae Costain yn awyddus i gynorthwyo mewn nifer o ffyrdd ar safle'r A40 ac ar draws ei safleoedd eraill.

Canolbarth Cymru - Aberhonddu

Merched yn Ymddwyn Mewn Modd Adeiladol yng Ngholeg Aberhonddu

Ar 24 Mawrth, mynychodd 26 o ferched o 4 ysgol yn ardal Aberhonddu gampws Aberhonddu Coleg Powys am y diwrnod i ymgymryd ag ychydig o weithgareddau ymarferol seiliedig ar adeiladu a'r amgylchedd adeiledig. Mynychodd merched blwyddyn 8, sydd tua 12-13 mlwydd oed, o Ysgol Uwchradd Aberhonddu, Ysgol Uwchradd Crucywel, Ysgol Gyfun Maesydderwen ac Ysgol Gyfun Llanfair-ym-muallt y diwrnod gweithgareddau a oedd yn dangos iddynt rai o'r cyfleoedd sydd yn y diwydiant. Roedd y diwrnod yn eu galluogi i gael blas ar rai o'r crefftau a gyrfaoedd proffesiynol.

Yn y bore, cafodd y merched gyfle i roi cynnig ar weithgareddau megis gosod briciau a gwaith saer gyda help tiwtoriaid Coleg Powys, Aberhonddu. Rhannwyd y merched yn ddau grŵp a threulion nhw dros awr yn gwneud pob crefft.

They were given a Health & Safety briefing for the workshop before they began and were then given a specific task to do under the supervision of the college tutors. It was an excellent opportunity for them to learn about the different tools of the trades and some of the techniques used – part of the carpentry task involved cutting a skirting board, something they would see around them every day and therefore helped them relate construction to the real world.

After lunch, they were then split into 2 groups, with one group having a lesson on Town Planning and the other having a session with 2 Architects from local company Hoole & Walmsley Architects. Roisin Willmott, Construction Ambassador from the Royal Town Planning Institute (RTPI) led the session on Town Planning, where the girls had to re-create the town of Bridgend, South Wales using some of the advice Roisin had given them at the start of the session.

Jacqui Walmsley and Karen Hoole were leading the Architectural session, where they talked to the girls about the factors that need to be taken into consideration when designing buildings and encouraged the girls to have a think about the types of buildings, structures etc needed in towns, villages and cities.

The girls had a great day and we hope that this will encourage them to consider a career within the Built Environment in the future.

South East Wales

Designing & Building for a Sustainable Future

In February this year, approximately 200 Year 9 pupils from secondary schools within the 5 Heads of the Valleys authorities attended an activity day demonstrating the opportunities for achieving a more sustainable future in Wales.

Rhoddwyd briff Iechyd a Diogelwch ar gyfer y gweithdy cyn i'r disgyblion ddechrau ar dasg benodol a gafodd ei goruchwylio gan diwtoriaid y coleg. Roedd yn gyfle ardderchog iddynt ddysgu am offerynnau gwahanol y crefftau a rhai o'r technegau a ddefnyddir – roedd rhan o'r dasg waith saer yn cynnwys torri bwrdd sgyrtin, rhywbeth y byddant wedi'i weld o'u cwmpas bob dydd a oedd yn ei wneud yn haws iddynt gysylltu adeiladu â'r byd real.

Ar ôl cinio, cawson nhw eu rhannu yn 2 grŵp, gydag un ohonynt yn cael gwers ar Gynllunio Trefol a'r llall yn cael sesiwn gyda dau bensaer o gwmni lleol, *Hoole & Walmsley Architects*. Arweiniodd Roisin Willmott, Llysgennad Adeiladu o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI), y sesiwn ar Gynllunio Trefol, lle oedd rhaid i'r merched ail-greu tref Pen-y-bont yn Ne Cymru gan ddefnyddio rhai o'r cyngor yr oedd Roisin wedi'i roi iddynt ar ddechrau'r sesiwn.

Roedd Jacqui Walmsley a Karen Hoole yn arwain y sesiwn bensaernïol. Siaradon nhw â'r merched am y ffactorau y mae angen eu hystyried wrth fynd ati i ddylunio adeiladau ac anogon nhw'r merched i feddwl am y mathau o adeiladau, strwythurau ayyb sydd eu hangen yn nhrefi, pentrefi a dinasoedd.

Cafodd y merched ddiwrnod gwych a gobeithiwn y bydd hyn yn eu hannog i ystyried gyrfa o fewn yr amgylchedd adeiledig yn y dyfodol.

De-ddwyrain Cymru

Dylunio ac Adeiladu ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy

Ym mis Chwefror eleni, mynychodd tua 200 o ddisgyblion blwyddyn 9 o ysgolion uwchradd o fewn 5 awdurdod Blaenau'r Cymoedd ddiwrnod gweithgaredd a oedd yn dangos iddynt y cyfleoedd sydd yn bodoli i gyflawni dyfodol mwy cynaliadwy yng Nghymru.

The aim of the 2 days, which took place on 10 & 11 February, was for pupils to gain an increased understanding of opportunities for employment & training through participation in various activities.
There were 4 different activities/workshops on each day (both days had the same content, with different pupils attending each day) which were carried out in the new British Gas Academy in Tredegar. Pupils were split into 4 groups and rotated around the 4 activities which are detailed below.

Activity 1 – Tour of the British Gas Academy
This included a historic time-line of houses which demonstrated opportunities for improved insulation.

Activity 2 – Building Research Establishment (BRE)
A representative from BRE delivered a presentation & exhibition of developments in the built environment.

Activity 3 – Passive Housing Presentation
This consisted of a talk from Bere Architects about their winning entry of a low carbon house, potentially setting a standard for a modern house.

Activity 4 – Dŵr Cymru/Welsh Water
This was an interactive session/presentation designed to help pupils calculate their carbon footprint and inform them about the sustainable use of water resources. Construction Ambassador Geoff Williams from BAM Construct UK heavily supported the project by advising the team on the development of the programme. Hannah Yearsley, another of our Construction Ambassadors from BAM also attended on both days to assist and support the event.

Nod y ddau ddiwrnod, a gymerodd le ar 10 a 11 Chwefror, oedd i ddisgyblion deall yn fwy manwl cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hyfforddiant trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau. Roedd pedwar gweithgaredd/gweithdy gwahanol ar bob diwrnod (roedd cynnwys y ddau ddiwrnod yr un peth, gyda disgyblion gwahanol yn mynychu bob diwrnod) a oedd yn cymryd lle yn Academi newydd Nwy Prydain yn Nhredegar. Rhannwyd disgyblion yn bedwar grŵp a symudon nhw o gwmpas y pedwar gweithgaredd y manylir arnynt isod.

Gweithgaredd 1 – Taith rownd Academi Nwy Prydain
Roedd hon yn cynnwys llinell amser hanesyddol o dai a oedd yn arddangos cyfleoedd am inswleiddiad gwell.

Gweithgaredd 2 – Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE)
Traddododd cynrychiolydd o BRE gyflwyniad ac arddangosiad o ddatblygiadau yn yr amgylchedd adeiledig.

Gweithgaredd 3 – Cyflwyniad Tai Ynni Goddefol
Roedd hwn yn cynnwys cyflwyniad gan *Bere Architects* am eu dyluniad enillgar o dŷ carbon isel, sydd o bosib yn gosod safon ar gyfer tŷ cyfoes.

Gweithgaredd 4 – Dŵr Cymru/Welsh Water
Roedd hyn yn sesiwn/cyflwyniad rhyngweithiol a ddyluniwyd i helpu disgyblion i gyfrif eu hôl troed carbon ac i'w hysbysu am ddefnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr. Rhoddodd Geoff Williams, Llysgennad Adeiladu o *BAM Construct UK* lawer o gefnogaeth i'r project trwy gynghori'r tîm ar ddatblygiad y rhaglen. Mynychodd Hannah Yearsley, un arall o'n Llysgenhadon Adeiladu o BAM, ar y ddau ddiwrnod hefyd i gynorthwyo a chefnogi'r digwyddiad.

South East Wales

WISE 'Discover!' Saturday Club supported by Cowlin

Cowlin is one of a growing number of organisations opting for 'in house' training for their Construction Ambassadors. Following the training of staff at the Cowlin premises in December 2009, James Player, Commercial Manager, agreed to support ConstructionSkills in providing a girls Diversity event in March 2010 as part of the Women into Science, Engineering and Construction (WISE) 'Discover!' Saturday Club. Linking up with the organisers, Careers Wales Cardiff & Vale and ConstructionSkills, Cowlin's Construction Ambassadors organised an innovative and interactive workshop held at their Ty Gwyn site in Ely, Cardiff, where a new Special Needs school and Respite Centre was being built.

On arrival, the 25 girls aged 14-15 were given a tour of the busy site to give them a flavour of the different elements of construction. The girls were then split into smaller groups to work on a variety of experiments and projects under the guidance of the Construction Ambassadors, who ranged from Construction Director, Project and Site Managers, Trainee Managers, Quantity Surveyors, Environmental Specialists and Design Coordinators.

The project topics included:

- Building heat loss incorporating the use of thermal imaging lead by Construction Ambassador Joanne Rock
- Designing a toilet for disabled use including building regulations and comparisons between special needs schools and the girls' own school, lead by Construction Ambassadors Elizabeth Williams and Haydn Williams
- A stress testing workshop on concrete, lead by Construction Ambassadors Ross Williams and Jennifer Parker

De-ddwyrain Cymru

Cefnogir Clwb Sadwrn WISE 'Discover!' gan Cowlin

Mae mwy a mwy o sefydliadau gan gynnwys Cowlin yn dewis hyfforddiant mewnol i'w Llysgenhadon Adeiladu. Ar ôl i staff gael eu hyfforddi yn adeiladau Cowlin yn Rhagfyr 2009, cytunodd James Player, Rheolwr Masnachol, i gefnogi SgiliauAdeiladu i gynnal digwyddiad amrywiaeth i ferched ym Mawrth 2010 fel rhan o Glwb Sadwrn (WISE) 'Discover!' Menywod mewn Gwyddoniaeth, Peirianneg ac Adeiladu. Trwy gydweithio â'r trefnyddion, Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro a SgiliauAdeiladu, trefnodd Llysgenhadon Adeiladu Cowlin weithdy arloesol, rhyngweithiol a gynhaliwyd ar eu safle Tŷ Gwyn yn Nhrelái, Caerdydd, lle oedd ysgol anghenion arbennig newydd a chanolfan seibiant yn cael eu hadeiladu.

Ar ôl cyrraedd, aethpwyd â'r 25 o ferched 14 i 15 oed ar daith o'r safle prysur i roi blas iddynt ar elfennau gwahanol adeiladu. Wedyn, rhannwyd y merched yn grwpiau bach iddynt weithio ar amrywiaeth o arbrofion a phrojectau o dan arweiniad y Llysgenhadon Adeiladu sydd â swyddi sy'n amrywio o Gyfarwyddwr Adeiladu, Rheolwyr Project a Safle, Rheolwyr dan Hyfforddiant a Syrfewyr Meintiau i Arbenigwyr Amgylcheddol a Chydlynwyr Dylunio.

Roedd pynciau'r project yn cynnwys:

- Defnyddio delweddau thermol i ddadansoddi'r ffordd y collir gwres o adeiladau - arweiniwyd gan Lysgennad Adeiladu, Joanne Rock
- Dylunio toiled i'w ddefnyddio gan bobl anabl gydag ystyriaeth i reoliadau adeiladu a chymariaethau rhwng ysgolion anghenion arbennig ac ysgol y merched eu hunain - arweiniwyd gan Lysgenhadon Adeiladu Elizabeth Williams ac Haydn Williams
- Gweithdy i brofi straen ar goncrid - arweiniwyd gan Lysgenhadon Adeiladu Ross Williams a Jennifer Parker

On completion of the tasks, the groups had to present their findings to their peers and demonstrated through their knowledge and enthusiasm how much they had absorbed in a short time.

The Careers Wales feedback report indicated that the event was regarded by the girls as one of the most popular in the six week Saturday Club. Parents were also canvassed for feedback and the responses mirrored those of the girls.

Bernie Mark, Education Adviser with ConstructionSkills commented, "The workshop provided by Cowlin Construction Ambassadors was an example of excellent good practice in working with young people, particularly girls, and demonstrated how effective the industry can be in raising awareness and promoting opportunities amongst young women and their families."

Ar ôl cwblhau'r tasgau, roedd rhaid i'r grwpiau gyflwyno'u canfyddiadau i'w cyfoedion a dangoson nhw trwy'u gwybodaeth a'u brwdfrydedd faint yr oeddent wedi'i gymryd i mewn yn ystod yr amser byr.

Dangosodd adroddiad adborth Gyrfa Cymru, yr oedd y digwyddiad, yn ôl y merched, yn un o'r mwyaf poblogaidd yn y Clwb Sadwrn chwe wythnos. Cafodd rhieni eu canfasio am adborth hefyd a gwnaeth yr ymatebion adlewyrchu'r rheiny a wnaethpwyd gan y merched.

Sylwodd Bernie Mark, Ymgynghorydd Addysg gyda SgiliauAdeiladu, "Roedd y gweithdy a ddarparwyd gan Lysgenhadon Adeiladu Cowlin yn enghraifft ardderchog o arfer da wrth weithio gyda phobl ifanc, yn arbennig merched, ac arddangosodd pa mor effeithiol y gall y diwydiant fod i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cyfleoedd ymhlith menywod ifainc a'u teuluoedd."

North Wales

Skillbuild 2010

Coleg Menai in Llangefni is busily gearing up to host the 2010 Skillbuild UK final on the 8, 9 and 10th of September. Young apprentices will battle it out in categories including Plastering, Brickwork, Carpentry, Joinery and Cabinet making to name but a few.

The final is the culmination of months of hard work for the apprentices who have battled through regional heats to reach the final. It is also the first time the national final has been held in North Wales and will be a showcase for Coleg Menai's £6.4million Const ruction Skills Centre.

To find out more about the event visit
http://www.cskills.org/newsandevents/campaigns/skillbuild.aspx

Gogledd Cymru

Adeiladu Sgiliau (Skillbuild) 2010

Mae Coleg Menai yn Llangefni'n paratoi'n brysur i gynnal rownd derfynol Adeiladu Sgiliau'r DU (Skillbuild UK) 2010 ar yr 8fed, 9fed a 10fed o Fedi. Bydd prentisiaid ifainc yn cystadlu mewn categorïau a fydd yn cynnwys Plastro, Bricwaith, Gwaith Saer, Gwaith Asiedydd a Gwneud Dodrefn i enwi ond ychydig.
Mae'r rownd derfynol yn symboleiddio misoedd o waith caled gan y prentisiaid sydd wedi brwydro trwy rowndiau rhanbarthol i gyrraedd y rownd derfynol. Mae hefyd y tro cyntaf i'r rownd derfynol genedlaethol gael ei chynnal yng Ngogledd Cymru a bydd yn gyfle gwych i Goleg Menai arddangos ei Ganolfan Sgiliau Adeiladu gwerth £6.4miliwn.

I ddarganfod mwy am y digwyddiad, ymwelwch â
http://www.cskills.org/newsandevents/campaigns/skillbuild.aspx

Would you or any of your colleagues like to be a Construction Ambassador?

ConstructionSkills holds Construction Ambassador training days in South & North Wales throughout the year and we're always looking for new people to support our projects and initiatives, some of which have been outlined in this newsletter.

After you have completed the 1 day training, we ask that you participate in a minimum of 3 events per year.

If you would like more information or to sign up to one of our training days, please contact Alison Howe on 07500 106069 or alison.howe@cskills.org

We look forward to hearing from you!

A fyddech chi neu unrhyw un o'ch cydweithwyr yn hoffi bod yn Llysgennad Adeiladu?

Mae SgiliauAdeiladu yn cynnal diwrnodau hyfforddi Llysgenhadon Adeiladu yn Ne a Gogledd Cymru drwy gydol y flwyddyn ac rydym bob amser yn chwilio am bobl newydd i gefnogi'n projectau a'n mentrau, gan gynnwys rhai sydd wedi cael sylw yn y cylchlythyr hwn.

Ar ôl i chi gwblhau'r hyfforddiant undydd, byddwn yn gofyn i chi gymryd rhan mewn o leiaf 3 digwyddiad bob blwyddyn.

Os hoffech fwy o wybodaeth neu i ymrestru ar gyfer un o'n diwrnodau hyfforddi, cysylltwch ag Alison Howe ar 07500 106069 neu alison.howe@cskills.org

Edrychwn ymlaen at glywed gennych!